Dinas a Sir Abertawe

Cofnodion Cyfarfod y Panel Llofnodwyr Cyfamod y Lluoedd Arfog

Chamber Meeting Room - Canolfan Ddinesig, Abertawe

Dydd Llun, 26 Chwefror 2018 am 2.00 pm

Yn Bresennol: Y Cynghorydd J E Burtonshaw (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

Alyx Baharie, SCVS
Capten Chris Evans MBE, Catrawd RLC 157 (Cymru)
Is-gomander Ruth Fleming – uned wrth gefn y Llynges
Thomas Hall, Blesma
Paul Jones, Gwasanaeth Prawf
Arweinydd Sgwadron Phil Flower MBE, y Lleng Brydeinig Frenhinol/Awyrlu Brenhinol
Rob Nicholls, Care after Combat
Jackie Preston, Canolfan Cyngor ar Bopeth
Raj Rahman, Clwb Cyn-filwyr
Sandy Shaw, Clwb Cyn-filwyr
David Singletary, Cymdeithas y Milwyr, Morwyr, Awyrenwyr a'u Teuluoedd
Amanda Thomas, Wales/Cymru/Help for Heroes
Eve Warburton, PCYDDS

Swyddog(ion)

Gareth Borsden	Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
Spencer Martin	Cydlynydd Perthnasoedd y Sector Gwirfoddol

Ymddiheuriadau am absenoldeb
Alison Fisher a D B Lewis.

---

25 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Dim.

26 Cofnodion.

Penderfynwyd cytuno bod cofnodion y panel a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr2017 yn gofnod cywir.

27 Cyflwyniad - Blesma.

Rhoddodd Tom Hall, Swyddog Cymorth (Gorllewin) o Blesma gyflwyniad PowerPoint a oedd yn tynnu sylw at y pynciau canlynol:

- Ei gefndir milwrol;
- Hanes Sefydlu Blesma ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf (mae'n un o 10 elusen yn unig sy'n bodoli o hyd o'r cyfnod hwnnw).

- Prif nodau'r elusen yw cynorthwyo cyn-filwyr – dynion a menywod - sydd wedi colli coesau neu freichiau, (neu ddefnydd o goes/fraich) llygaid neu sy'n dioddef nam ar y golwg;
- Cynllun y sefydliad a strwythur staffio:
- Cenhadaeth a gweledigaeth;
- Mathau o aelodaeth;
- Meysydd arbenigedd a chymorth/cyngor sydd ar gael:
- Rôl swyddogion cymorth rhanbarthol;
- Ardaloedd daearyddol a gynhwysir;
- Hunan-ariannu;
- Gweithgareddau a digwyddiadau aelodau sydd ar gael;
- Nifer yr aelodau, yr ymweliadau/gweithgareddau a gynhelir a'r grantiau a roddir.

28 Y diweddaraf gan aelodau'r panel. (Llafar)

Rhoddodd aelodau'r panel y diweddaraf am weithgareddau, digwyddiadau a llwythi gwaith presennol ac arfaethedig eu grwpiau a'u sefydliadau priodol, gan gynnwys y meysydd canlynol:

CGGA
Cyfeiriodd Alex Baharie at gynllun grant Diwrnod y Lluoedd Arfog sy'n derbyn ceisiadau o hyd a nododd y byddai'n rhaeadru dolen i'r cynllun.

Clwb hen filwyr
Dywedodd Sandy Shaw fod cyfarfodydd rheolaidd "galw heibio" ar ddydd Llun a dydd Gwener ar fin dechrau yn y Schooner Inn yn Abertawe.

Y Lleng Brydeinig Frenhinol/Y Llu Awyr Brenhinol
Adroddodd Phil Flower ar y gwahanol ddigwyddiadau a gynlluniwyd i gofféu 100 mlynedd y Llu Awyr Brenhinol, gan gynnwys cyngerdd Gala yn Neuadd Brangwyn ar 20 Ebrill a gwasanaeth eglwys yn y Santes Fair a gorymdaith o fwy na 400 o filwyr ar ôl hynny ar 22 Ebrill.

Tynnodd sylw at y trafodaethau parhaus â Chyngor Abertawe ynghylch digwyddiadau posib i gofféu 100 mlynedd y Rhyfel Byd Cyntaf, gan gynnwys "goleuo" adeiladau, cae coffa, gorymdaith estynedig a digwyddiad ar Sul y Cofio. Ymgymerir â thrafodaethau pellach ar y cynigion â phartneriaid allweddol yn ystod y misoedd nesaf.

Nododd fod Apêl Pabïau 2017 wedi codi mwy na £111 mil yn Abertawe, y cyfanswm uchaf erioed.

Care after Combat
Nododd Rob Nicholls mai prif rôl y sefydliad oedd cynorthwyo cyn-filwyr yn y system gyfreithiol. Nododd eu bod yn gweithio'n dda gydag asiantaethau eraill i gynghori/gynorthwyo cyn-filwyr cyn ac ar ôl iddynt gael eu rhyddhau a dywedodd fod

ganddynt gyfradd lwyddiant o 92% ddim yn aildroseddu o fewn blwyddyn o gael eu rhyddhau.

Cymdeithas y Milwyr, Morwyr, Awyrenwyr a'u Teuluoedd (SSAFA)
Dywedodd Dave Singletary fod y gymdeithas yn parhau â'i llwyth gwaith arferol a chyfeiriodd at lwyddiant dawns SSAFA a gynhaliwyd yn ddiweddar yng Ngwesty Traeth Aberafan, a gododd dros £1800.

Blesma
Cyfeiriodd Tom Hall at fater ynglŷn â lleihau costau bathodynnau glas y bu'n ymgymryd ag ef yn Lloegr a oedd yn ymwneud â hen filwyr, a holodd a ellid gwneud rhywbeth tebyg yn lleol.

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
Nododd Eve Warburton fod y Brifysgol yn bwriadu ehangu ei chysylltiad â'r Cyfamod, ail-lofnodi'r cytundeb a cheisio sefydlu canolfan yng Nghaerfyrddin ar y cyd â Help for Heroes.

Help for Heroes
Nododd Amanda Thomas mai ond 6 wythnos y bu yn y swydd, a chyfeiriodd at y boreau coffi i'w cynnal yng nghampfa Bulldogs.

Y Llynges Frenhinol
Cyfeiriodd Ruth Fleming at ddigwyddiad Rhyddid y Ddinas ar gyfer HMS Cambria ar 17 Mawrth. Bydd Band y Môr-filwyr Brenhinol yn perfformio.

Cyfeiriodd hefyd at gêm rygbi Menywod y Llynges Frenhinol yn erbyn Prifysgol Abertawe a gynhelir yn San Helen.

Nododd ei bod hi'n hapus i gynorthwyo gyda "gweithlu" ar gyfer unrhyw ddigwyddiadau coffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf.

Nododd fod cyn-filwyr yn cael eu hannog i wisgo eu lifrai ar Ddydd y Cofio eleni.

Y Fyddin
Cyfeiriodd Chris Evans at y trafodaethau a'r cynlluniau parhaus ar gyfer Diwrnod y Lluoedd Arfog a'r Sioe Awyr eleni, a gynhelir ar yr un penwythnos. Cyfeiriodd at faterion ynghylch codi baneri, pentref milwrol a digwyddiadau amrywiol dros y penwythnos.

Tynnodd sylw at y ffaith fod y Weinyddiaeth Amddiffyn wedi cyhoeddi newid mewn perthynas â gweithdrefn grantiau Cyfamod y Lluoedd Arfog. Mae holl geisiadau presennol wedi'u gohirio nes rhoi'r system newydd ar waith.

Cyfeiriodd at ddigwyddiad arall sydd yn yr arfaeth yn The Grange.

Cyngor Abertawe
Dywedodd Spencer Martin fod yr awdurdod yn parhau i weithio tuag at ddyfarnu gwobr safon aur y cyfamod.

Dywedodd June Burtonshaw ei bod hi'n parhau i weithio ar achosion unigol gyda SSAFA, a chyfeiriodd at y cynlluniau ar gyfer cyfres o ddigwyddiadau posib ar gyfer Dydd y Cofio.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.50 pm

Cadeirydd